**Cwis Eco Cyngor Cymuned Cwmbrân**

Bu disgyblion o 12 ysgol gynradd yng Nghwmbrân yn rhoi prawf ar eu gwybodaeth amgylcheddol yng nghwis eco blynyddol Cyngor Cymuned Cwmbrân.

Cynhaliwyd y cwis yn Theatr y Congress ddydd Iau, 8 Chwefror a chafodd ei noddi gan Knauf Insulation UK, cynhyrchydd deunyddiau inswleiddio lleol.

Roedd y cwis yn gwahodd disgyblion o ysgolion Cwmbrân i fynd benben yn erbyn ysgolion cynradd eraill mewn prawf o'u gwybodaeth am faterion amgylcheddol.

Pencampwyr 2018 oedd Ysgol Gynradd Gymunedol Woodlands, a enillodd £100 i'w hysgol a thaith o amgylch gwaith Knauf.

Daeth Ysgol Gynradd Coed Efa yn ail, gan ennill £75, ac yn gydradd drydydd oedd Ysgol Gymunedol Ffordd Blenheim ac Ysgol Gynradd Llanyrafon, yn ennill £50. Cafodd pob ysgol £25 am gymryd rhan.

Dywedodd y Cynghorydd Bob Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Cwmbrân, "Mae hwn yn ddigwyddiad poblogaidd iawn gan yr ysgolion. Mae'n gyfle ardderchog i'r cyngor helpu plant i ddysgu am y byd o'u hamgylch. Rydym yn arbennig o ddiolchgar i Knauf Insulation am gefnogi'r cwis unwaith eto eleni."

Yr ysgolion cynradd eraill a gymerodd ran yn y cwis oedd: Croesyceiliog, Greenmeadow, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Henllys, Pontnewydd, Maendy, Nant Celyn, Ysgol Gatholig Our Lady of the Angels ac Ysgol Gymraeg Cwmbrân.